# Teyrnas Cardbord

Sesiynau chwarae dan do a gaiff eu harwain gan ein gweithwyr chwarae gwych. Fe fydd gennym ni ystod o adnoddau chwarae, llwyth o gardbord a hyd yn oed mwy o frwdfrydedd.






# Digwyddiadau Parc Sglefrio

Mae Datblygu Chwarae Conwy wedi bod yn gweithio gyda King Ramps i ddarparu sesiynau ar draws parciau sglefrio lleol. Mae'r digwyddiad yma'n gyfle i blant a phobl ifanc ddod draw a rhoi cynnig ar arddangosfeydd, gweithdai a chystadlaethau am ddim.

# Tywysoges yn y parc

Fe fydd gennym ddiddanwyr plant proffesiynol o safon uchel yn bresennol yn rhai o'n sesiynau Rhieni Chwareus dros yr haf. Cyfle hyfryd i'r plantos bach gyfarfod tywysoges go iawn a mwynhau cydganu gyda rhai o'u hoff ganeuon.





# Sesiynau sgiliau syrcas

Dewch draw i ddysgu amrywiaeth o sgiliau syrcas fel jyglo, diablo, ffon y diafol, cydbwyso a throelli plât mewn amgylchedd sy'n llawn hwyl ac yn gefnogol.